Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# YGGD Trebannws

**Swansea Road**

**Trebannws**

**Swansea**

**SA8 4BL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**Rhif yr ysgol: 6712208**

**Rhif yr arolygiad: 1556**

**gan**

**Mr Nicholas Jones**

**Arolygydd cofnodol o dan gontract i Estyn**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Draddodiadol Trebannws yn gwasanaethu'r pentref lleol a'r ardal gyfagos yng Nghwm Tawe, Castell-nedd Port Talbot. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 133 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed, wedi eu trefnu mewn tri dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a dau ddosbarth yn yr adran iau. Yn ychwanegol, mae canolfan cymorth dysgu i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymhlyg yn yr ysgol wedi ei rhannu mewn i ddau ddosbarth.

Er mai dim ond 13% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd, Cymraeg yw prif iaith yr ysgol, er mai Saesneg yw iaith y canolfan cymorth dysgu. Mae 2% o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. 'Does dim symudedd disgyblion arwyddocaol yn perthyn i'r ysgol.

Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd ac mae gan 24% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Rhwng y canolfan cymorth dysgu a'r brif ffrwd nodwyd bod gan 28% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae 17 disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig sydd wedi eu lleoli yn y canolfan cymorth dysgu.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Ionawr 2007 a dechreuwyd tua hanner yr athrawon yn eu swyddi yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn 2005.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Trebannws yw £4,934, sy'n cymharu ag uchafswm o £7,911 ac isafswm o £2,843 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gan yr ysgol y mae'r 10fed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 71 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae safonau a medrau'r mwyafrif o ddisgyblion yn is na'r lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos deallusrwydd cyson o'u lles, iechyd a diogelwch;
- 'dydy'r cynllunio ddim yn gydlynus a ddim yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol;
- 'dydy'r gwahaniaethu ddim yn fanwl a 'does dim digon o her i symud y disgyblion ymlaen i gyflawni'n well;
- mae'r ymateb i waith disgyblion ar bapur yn anghyson a 'dydy ddim yn dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion ar sut i'w gwella'u gwaith;
- y defnydd effeithiol o'r amgylchedd dysgu;
- y gweithio effeithiol rhwng y canolfan cymorth dysgu a'r brif ffrwd;
- mae'r gweithdrefnau strategol yn gymharol newydd ac mae'r newidiadau i gynllunio cwricwlwm priodol er mwyn codi safonau heb ymsefydlu'n ddigonol; ac
- er bod y broses o hunan arfarnu wedi'i sefydlu ers hir amser, nid yw'r ffocws a'r targedu wedi cael yr effaith briodol ar godi safonau disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â rhai argymhellion o'r arolygiad blaenorol; ac
- er bod y strategaethau diweddaraf yn dechrau dangos gwelliannau, nid yw'r cynllunio strategol a'r hunan werthuso wedi cael amser i ymsefydlu er mwyn symud yr ysgol ymlaen.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol i:

A1 godi safonau disgyblion a'u medrau allweddol yn enwedig uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu ymestynnol ar draws y cwricwlwm;

A2 parhau i wella'r cynllunio er mwyn herio disgyblion yn gyson a gwahaniaethu'n effeithiol ar eu cyfer;

A3 cysoni'r broses o ymateb i waith disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut y gallant gwella'u gwaith; a

A4 pharhau i wella'r cynllunio strategol i sicrhau bod y targedau sy'n deillio o'r hunan werthuso yn arwain yn uniongyrchol at godi safonau disgyblion.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau:  Digonol**

Mae sgiliau sylfaenol tua hanner y disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig neu'n well.  Mae'r mwyafrif yn cyrraedd y deilliannau priodol am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Ers 2007, wrth ystyried cyraeddiadau'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol, yn y pynciau craidd ac wrth gyfuno'r pynciau, mae'n bwysig i ystyried bod disgyblion ag anghenion addysgol cymhlyg yn rhan o'r data amrwd.  Felly, wrth ddadagregu'r data rhwng y brif ffrwd a'r canolfan cymorth dysgu mae tueddiadau cliriach yn ymddangos ar gyfer cyraeddiadau'r disgyblion.

Wrth feincnodi yn erbyn ysgolion tebyg yn ôl prydau ysgol am ddim dros y bedair blynedd ddiwethaf, yng nghyfnod allweddol 1, mae'r ysgol yn dueddol i fod yn y pedwerydd chwarter ym mhob pwnc craidd ac wrth gyfuno'r pynciau.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn tueddu i gwympo yn y pedwerydd chwarter ym mhob pwnc ac wrth gyfuno'r pynciau, heblaw'r Gymraeg, lle mae'n amrywio rhwng yr ail a'r pedwerydd chwarter.

Wrth ddadagregu'r data i ddisgyblion y brif ffrwd yn unig, mae cyfnod allweddol 1 yn dueddol i fod yn y trydydd neu'r pedwerydd chwarter, heblaw'r Gymraeg, sy'n yr ail neu'r chwarter cyntaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r tueddiadau llawer mwy anghyson gyda phob pwnc a'r cyfuniad o bynciau. Maent yn amrywio rhwng y chwarter uchaf a'r chwarter isaf. Felly, wrth ystyried canlyniadau disgyblion yn y brif ffrwd yn unig, nid ydynt ar y cyfan yn cymharu'n dda â pherfformiadau disgyblion mewn ysgolion tebyg.

Ers 2007, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd yn uwch na'r norm disgwyliedig dros gyfnod yng nghyfnod allweddol 1 yn gyson is na'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru ym mhob pwnc craidd. Mae hyn hefyd yn wir yng nghyfnod allweddol 2, lle mae'r canlyniadau yn gyson is na'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae'r merched yn dueddol i berfformio'n well na'r bechgyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawniad digonol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol wrth ystyried eu mannau cychwyn, heblaw am y disgyblion yn y canolfan cymorth dysgu, lle mae'r cyflawniad yn dda. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y brif ffrwd yn gwneud cynnydd digonol o ran eu gallu. Mae hyn hefyd yn wir am blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

Mae medrau cyfathrebu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar lafar yn Saesneg, ond dim cystal yn y Gymraeg. Maent yn gwrando'n astud, yn siarad yn glir ac yn darllen â phwrpas. Fodd bynnag, mae uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu ymestynnol y rhan fwyaf o ddisgyblion heb eu datblygu cystal. Nid ydynt yn ymateb yn briodol i'r hyn y maent yn eu darllen a nid ydynt yn ysgrifennu'n ymestynnol yn gyson mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Felly, mae sgiliau drafftio gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion heb ddatblygu'n effeithiol. Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn foddhaol, fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'u medrau mathemategol yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae medrau cyfrifiadurol a thechnoleg bron pob un o'r disgyblion yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau ehangach defnyddiol; mae eu hannibyniaeth fel dysgwyr a'r ffordd y maent yn gwerthuso'u gwaith ei hunain a'u cyfoedion yn dechrau datblygu. Mae'r broses newydd hon yn dechrau cael effaith bositif ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae sgiliau cyflwyno gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddisgyblion yn anghyson ar draws y cwricwlwm ac o'r herwydd, 'dydy'r cyflwyniad ar bapur ddim yn gyson daclus.

Mae cynnydd bron pob un o'r disgyblion gyda'u medrau yn yr iaith Gymraeg yn dangos cryfderau sy'n gorbwyso meysydd i'w gwella.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol ac ymarfer eu cyrff trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ddysgwyr bodlon sy'n mwynhau bywyd yr ysgol. Mae'r mwyafrif yn mwynhau eu gwersi ac yn ddiweddar maent yn dechrau datblygu strategaethau i leisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn eu dysgu. Mae'r

ymddygiad yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2, 'Bugeiliaid Bannws', yn dangos gofal a pharch tuag at ddisgyblion iau a disgyblion ag anghenion arbennig.

Mae'r gyfradd bresenoldeb, sef tua 92%, rhywfaint yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwelliant yn yr agwedd yma yn ddiweddar ers i'r ysgol fabwysiadu strategaethau newydd i wella presenoldeb. Mae bron pob un disgybl yn brydlon. Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud rhai penderfyniadau am fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, er bod y disgyblion yn mwynhau eu cyfrifoldebau, 'dydy'r cyngor a'r pwyllgor ddim yn cael digon o gyfrifoldeb a dylanwad ar fywyd a gweithgareddau dyddiol yr ysgol. Mae eu gwaith all-gyrsiol a'u hymroddiad i'r pentref a'r gymuned leol yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn dechrau datblygu prosesau effeithiol. Er bod newidiadau sylweddol wedi digwydd i'r broses o gynllunio yn ddiweddar, 'dydy'r strwythur newydd ddim wedi cael digon o amser i ddylanwadu'n llawn ar wella safonau'r disgyblion. Mae'r cynllunio diweddaraf ar draws yr ysgol yn dechrau ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn well. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r ardaloedd dysgu yn fwy sefydlog ac effeithiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, 'does dim digon o fanylder a dilyniant yn y cynllunio a felly, 'dydy'r cwricwlwm a ddarperir ddim yn herio ac ennyn digon o ddiddordeb i fwyafrif o ddisgyblion. 'Dydy'r cynllunio ddim yn gydlynus a ddim yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn ddigonol gan fod y systemau newydd a weithredir yn ddiweddar heb gael yr amser priodol i ymsefydlu. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a sgiliau meddwl yn dechrau cael sylw pwrpasol ac maent yn dechrau amlygu'u hunain ym mywyd dyddiol yr ysgol a gwaith y disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth o faterion dinasyddiaeth fyd eang. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dda wrth iddynt drafod mentergarwch ac o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo. Defnyddir cyd-addoli yn briodol i amlygu materion sy'n ymwneud â pharch at eraill ac addysg bersonol a chymdeithasol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n effeithiol ar hyd yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Ar y cyfan, mae cryfderau'r addysgu'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella. Lle mae addysgu da, defnyddir adnoddau'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae perthynas waith dda rhwng bron pob un oedolyn a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae cwestiynu yn dda ac yn ceisio ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae disgyblion yn elwa o'r ffaith bod eu hathrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith. Maent yn rhoi awgrymiadau ac anogaeth synhwyrol ar lafar i ddisgyblion ar gyfer gwella'u gwaith. Mae'r safon o addysgu yn y canolfan cymorth dysgu yn gyson dda ac yn ysgogi'r disgyblion i gyflawni'n dda yn ôl eu gallu.

Mae cyflwyniadau a chyflymdra'r gwersi sydd llai cystal yn rhy araf a rhy hir a 'does dim digon o her i ddisgyblion. Felly, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddilyn arweiniad yr athro yn hytrach na meddwl drostynt eu hunain. Mae'r oedolion yn arwain y dysgu yn ormodol er eu bod nhw'n gwrando'n ofalus ar ymatebion y disgyblion. Mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith gan yr athrawon sy'n cyfyngu cyfleoedd i'r disgyblion i ymestyn eu gwaith, eu gwybodaeth a'u hannibynniaeth wrth ddysgu.

Mae marcio gwaith y disgyblion yn anghyson, er bod agweddau da i'w gweld. Fodd bynnag, wrth archwilio gwaith, gwelir fod ymateb i waith disgyblion ar bapur yn amrywio yn ôl safon a 'dydy ddim yn dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion i wella'u gwaith. Mae'r broses o osod targedau defnyddiol ar gyfer disgyblion unigol yn dechrau sefydlu trwy'r ysgol. Maent yn dechrau cael effaith adeiladol ar waith y disgyblion. Fodd bynnag, 'dydy gwahaniaethu ar gyfer anghenion datblygiadol y disgyblion ddim yn fanwl a 'does dim digon o her i symud y disgyblion yma ymlaen i gyflawni'n well.

Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau ymddygiad yn effeithiol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau ymsefydlu yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae meini prawf llwyddiant yn dechrau cael y sylw priodol ac yn dechrau ffocysu'r disgyblion ar sut i ddatblygu'u gwaith. Mae'r system o lefelu a chymedroli gwaith disgyblion dros amser yn adnabod lefelau cyrhaeddiad y disgyblion, fodd bynnag, 'dydy'r wybodaeth ddim bob amser yn arwain at flaen gynllunio bwriadus.

Mae adroddiadau i rieni yn cyrraedd y gofynion statudol, gyda'r wybodaeth briodol yn ei le, sy'n cynnwys targedau personol. Ar y cyfan, mae rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth addas am gynnydd eu plant ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae gwybodaeth dda ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol sy'n cynnwys gwefan ddefnyddiol, prosbectws yr ysgol ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd a disgyblion ag anghenion arbennig yn glir ac mae trefniadau da yn eu lle i drosglwyddo'r disgyblion hŷn i

addysg uwchradd. Caiff y ddarpariaeth drefnus ar gyfer lles a manteision byw'n iach eu hyrwyddo'n glir. Mae mentrau cenedlaethol fel y rhai ar gynhwysiad a chydraddoldeb yn cael eu hannog a'u cefnogi'n dda iawn.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae gweithdrefnau a systemau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith a mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y canolfan cymorth dysgu yn dda iawn.

Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau effeithiol ar adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol. Caiff disgyblion y canolfan cymorth dysgu eu cynnwys yn rheolaidd ym mywyd a gwaith dyddiol yr ysgol. Mae hyn yn arfer dda iawn ac yn agwedd bositif i ddisgyblion y canolfan cymorth dysgu a'r brif ffrwd wrth iddynt ystyried a gwerthfawrogi eu cefndiroedd amrywiol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, eu hil neu'u crefydd ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r adeilad a'r tir yn effeithiol iawn ac maent yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r staff cymorth yn gweithio dan arweiniad yn effeithiol gydag athrawon dosbarth i gyflwyno'n frwdfrydig gweithgareddau priodol ar draws yr ysgol. Mae ansawdd yr adnoddau'n dda a chânt eu defnyddio â phwrpas i gefnogi anghenion dysgu disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Gwella'r ysgol trwy godi safonau disgyblion ymhellach yw prif ffocws y cynllunio strategol. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau yn newydd ac mae'r newidiadau i gynllunio cwricwlwm priodol er mwyn codi safonau heb ymsefydlu. Felly, mae'r cryfderau yn y strwythurau rheoli yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella.

Mae'r pennaeth a gweddill y staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn creu sylfaen gadarnach wrth ddelio â chodi safonau disgyblion a darparu cwricwlwm cyson ar draws yr ysgol.

Mae’r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi meysydd i’w gwella. Maent yn dîm newydd ac yn ddiweddar mae datblygiadau arwyddocaol a phositif yng ngwaith a bywyd yr ysgol. Mae cyfarfodydd cyson a diwrnodau hyfforddi cyfan yn cefnogi datblygiad proffesiynol y staff ac erbyn hyn maent yn cael eu defnyddio’n bwrpasol er mwyn symud yr ysgol ymlaen yn strategol. Mae cyfrifoldebau penodol gan y staff i ddatblygu’r ysgol fel cymuned ddysgu ac maent yn rhannu arferion yn ddefnyddiol i geisio gwella’u harferion proffesiynol a safonau’r disgyblion.

Mae systemau rheoli perfformiad yn sefydlog. Mae’r ysgol yn cynnal rheoli perfformiad ac yn gweithredu’r gofyniad cyfreithiol i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn ffurfiol fel rhan o’r broses hon.

Mae’r ysgol yn targedu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae’r ysgol wedi ennill y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol yn y gorffennol, y wobr efydd o gynllun Eco Ysgolion a dwy ddeilen o gynllun Ysgolion Iach. Mae’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn effeithiol i bob disgybl hyd at saith oed.

Mae’r llywodraethwyr yn ymgymryd â’u rolau a’u cyfrifoldebau yn deyrngar a thrwyadl ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o’r ffordd y mae’r ysgol yn perfformio trwy wrando ar staff ac ymweld â dosbarthiadau yn achlysurol. Mae’r cadeirydd a gweddill y corff llywodraethol yn mynychu hyfforddiant ac yn herio’r ysgol yn dda fel ffrindiau beirniadol. Maent yn trin data perfformiad yr ysgol yn effeithiol a deall y goblygiadau sydd arnynt wrth iddynt fynd i’r afael â chreu gwelliannau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae rhai agweddau effeithiol ar gyfer y broses o gynllunio ar gyfer gwella. Mae’r broses o hunan arfarnu wedi’i sefydlu ers hir amser, ond, ni chafodd y ffocws a’r targedu yr effaith briodol ar godi safonau disgyblion. Ers sefydlu’n ddiweddar systemau gwell o hunan arfarnu’n systematig ar brif anghenion yr ysgol, mae’r staff cyfan yn fwy ymwybodol o bwrpas ac effaith hunan arfarnu effeithiol. Mae’r rheolwyr ac arweinwyr yn datblygu gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau’r ysgol erbyn nawr ac mae hyn yn ffocysu ar godi safonau disgyblion a datblygu’r ddarpariaeth yn y dosbarth ymhellach.

Mae’r cynllun datblygu ysgol, sy’n deillio o’r hunan werthusiad diweddar, yn dechrau cael effaith gadarnhaol er mwyn gwella’r ysgol ymhellach. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac mae’r defnydd o ddata wrth dracio cynnydd disgyblion yn dechrau herio’r ysgol i godi safonau.

Mae’r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaethau gydag ysgolion a phartneriaid eraill, sy’n cynnwys y gymuned ehangach, y wasanaeth addysg a’r awdurdod lleol. Gwnaed cynnydd anghyson wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad olaf ynglŷn â chodi safonau disgyblion, hunan werthuso a chysoni adborth i ddisgyblion. Erbyn nawr, mae’r tîm rheoli newydd yn dechrau mynd i’r afael â’r agweddau a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill yn dda ac mae bron pob un o'r rhieni yn ymfalchïo ym mholisi 'drws agored' yr ysgol. Mae'r partneriaethau gyda busnesau lleol yn dda gyda rhai ohonynt yn derbyn plant ar ymweliadau. Mae hyn yn cael effaith bositif ar ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith. Mae'r cysylltiadau trosglwyddo rhwng y cylch meithrin a'r ysgol yn effeithiol. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu'n dda trwy astudio gwledydd eraill fel India, Tseina a chyfandiroedd fel yr Unol Daleithiau. Mae'r ysgol yn cefnogi elusennau priodol sy'n codi ymwybyddiaeth y plant o anghenion pobl eraill yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Caiff staffio, adnoddau a'r cyllid eu rheoli'n dda. Mae gan athrawon wybodaeth briodol i gyflwyno cwricwlwm eang ar y cyfan. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon i wella cyflawniad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth neu ar ddyletswyddau trwy gydol y dydd.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn dda i sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r cynllunio strategol a'r bwriad newydd ar gyfer datblygu'r ysgol heb gael yr amser i sefydlu ac effeithio safonau ac ansawdd yr addysgu yn y brif ffrwd. Felly, er bod y strategaethau diweddaraf yn dechrau dangos gwelliannau, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian o ran deilliannau disgyblion yn benodol ac agweddau o ddarpariaeth ac arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd hyd at pum deg naw o rieni i'r holiadur. Mae bron pob un yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol a roedd cymorth iddynt ymgartrefu'n dda wrth ddechrau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda, bod yr addysgu'n dda, bod disgwyliadau'r staff yn pwysleisio gweithio'n galed a bod gwaith cartref yn adeiladu ar waith y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff a bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Y rhan fwyaf sy'n adrodd bod cymorth ychwanegol priodol ar gael i'w plant, bod yr ysgol yn hybu aeddfedrwydd ac ysgwyddo cyfrifoldebau, bod eu plant yn barod i symud ymlaen i'w hysgol nesaf a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, teithiau ac ymweliadau ar gael. Llawer o rieni sy'n fodlon ar yr ysgol yn gyffredinol, bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Llawer sy'n adrodd bod gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn ar gael, bod nhw'n teimlo'n esmwyth wrth gysylltu â'r ysgol, yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Ymatebodd hyd at pedwar deg dau o ddisgyblion i'r holiadur. Mae pob disgybl yn teimlo bod digon o adnoddau ganddynt a bod yr athrawon ac oedolion eraill yn helpu â'u dysgu. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod yr ysgol yn delio â bwlio, yn meddwl eu bod nhw'n gwneud yn dda ac yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld gwaith yn anodd. Mae bron pob un yn teimlo bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach, bod digon o gyfleoedd am ymarfer corff, maent yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn gofidio a bod gwaith cartref yn helpu'u gwaith ysgol. Llawer sy'n meddwl bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a galluogi iddynt fwrw ymlaen â'u gwaith a mae'r rhan fwyaf yn meddwl bod ymddygiad yn dda yn ystod amser chwarae a dros cinio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Nick Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Eleri Honour | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Eluned Lewis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Miriam Powles | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |